# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cefnfaes
ac yn rhithiol dros Zoom
**Nos Iau 25 Hydref 2024 am 6.30yh**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Catrin Wager
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Einir Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Walter Williams

**1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. E Mary Jones.
**Ymddiheuriadau** – Y Cyng. Gwilym Owen, Bleddyn Williams, Dyfrig Jones, Huw Jones a Michael Williams.

**2. Ian Roberts, Arolygydd Gogledd Gwynedd, Heddlu Gogledd Cymru**
Croesawyd Ian Roberts, David Griffiths a Scott Jones o'r Heddlu i'r cyfarfod. Cafwyd cyflwyniad gyda llawer o wybodaeth am droseddau o fewn y gymdogaeth, a chymhariaeth gydag ardaloedd eraill yng Ngogledd Gwynedd. Cytunwyd y byddent yn mynychu cyfarfod eto yn fis Mawrth 2025 i weld sut mae'r ystadegau trosedd yn dod ymlaen. Diolchwyd i'r tri am fynychu'r cyfarfod.

**3. Datgan Diddordeb**
Dim.

**4. Materion Brys**
**Torri Coed Ogwen Bank -** Nodwyd pryderon y Cyngor hefo nifer fawr o goed yn cael ei thorri ar y safle. Y Cyngor i hysbysu'r adran gorfodaeth a'r swyddog bioamrywiaeth yng Nghyngor Gwynedd. Y Clerc hefyd i ysgrifennu at berchnogion Ogwen Bank i ddatgan ein siom a'n pryderon.

**5. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2024.

**6. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**6.1 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig -** Y les gwreiddiol angen ei adnewyddu, nid yw'r les presennol yn addas. Adroddwyd fod y Clerc wedi cael sgwrs gyda'r tirfeddiannwr a chytunwyd y byddent yn creu les newydd – ar y gweill.

**6.2 Glanhau'r Gofeb** - Adroddwyd fod y gwaith glanhau wedi cael ei gwblhau, ac wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'r gofeb. Y Clerc i edrych i mewn i'r posibilrwydd o wella safon yr ysgrifennu ar y gof golofnau.
**6.3 Cae Chwarae Pantdreiniog -** Adroddwyd fod y Clerc wedi derbyn dau bris gwahanol am y llawr wetpour, disgwyl am un pris arall. Nodwyd fod archwiliad ROSPA yn cael ei gwblhau o fewn yr wythnosau nesaf, y Clerc i ddisgwyl am adroddiad ac i weithredu yn ôl yr angen.
**6.4 Lon Newydd - Dŵr yn llifo -** Adroddwyd ar ddechrau mis Medi fod dŵr yn llifo ar hyd y ffordd Lon Newydd ger y gyfnewidfa BT. Mae Clerc y Cyngor a Cyng. Paul Rowlinson wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd am y mater. Cadarnhawyd Cyngor Gwynedd eu bod wedi derbyn yr un wybodaeth gan Dŵr Cymru. Adroddwyd mai dŵr yn codi o ddwythellau BT ydi'r achos, a'u bod wedi hysbysu BT am y broblem, ond byddent hefyd yn dilyn y mater fyny gyda hwy. Nodwyd fod hyn yn broblem gall godi o'i bryd i'w gilydd wrth i ddŵr tir ffeindio ei ffordd mewn i ddwythellau BT, ond oherwydd rhwystr yn y ddwythell mae'r dŵr yn cael ei yrru i fyny drwy arwyneb y ffordd. Mae fel arfer yn gallu cael ei ddatrys drwy rodio'r ddwythell i glirio'r rhwystr. Penderfynwyd y Clerc cysylltu â Chyngor Gwynedd eto, gan bwysleisio y bydd tywydd rhewllyd yn Bendant ar y ffordd, a bydd angen mynd i'r afael a'r broblem cyn gynted â phosib. Y Clerc hefyd i ofyn i Gyngor Gwynedd sicrhau mai dŵr glaw ydyw ac nid carthffosiaeth.
**6.5 Cynllun Bioamrywiaeth -** Y Clerc a'r Cyng. Catrin Wager i edrych dros y ddogfen, ac yna ei ail gyflwyno i'r Cyngor.
**6.6 Cysgodfan Bws ger Maes Bleddyn -** Y Clerc edrych wedi edrych ar y safle ac yn edrych am opsiynau amgen - ar y gweill.
**6.7 Ffordd rhwng Sgwâr Rachub a Hen Barc** - Nodwyd fod y Clerc wedi cysylltu gyda Sian Gwenllian aelod o'r senedd ar y mater, ac adroddwyd fod yr aelod seneddol wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd am y mater, ac wedi derbyn yr 'run ymateb a chafwyd y Cyngor mis diwethaf. Adroddwyd bydd Sian yn hapus i godi'r mater o ragor o gyllid i wella ffyrdd gyda Ken Skates, ac fe ddoth yn ôl atom unwaith iddi hi dderbyn ymateb.

**7. Cytundeb Lefel Gwasanaeth CCTV**
Y Clerc i holi am gytundeb newydd, yna i ail gyflwyno'r ddogfen i'r Cyngor.

**8. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd nad yw'r gofrestr tir wedi'i diweddaru eto yn dilyn gwerthiant y tir. Nodwyd rhwystredigaeth y cyngor, a bod y Cyngor yn awyddus iawn i ddatrys y problemau parcio yng Ngherlan. Y Clerc i gysylltu gyda'r aelod seneddol i ofyn iddynt gysylltu â'r gofrestra tir ar ein rhan ni.

**9. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Hydref 2024'
**10.1 Carnifal Bethesda -** Cais am rodd flynyddol i'r Carnifal - Penderfynwyd rhoi rhodd o £750 i'r Carnifal eleni ac i gynnwys penawd newydd ar yr archeb flynyddol. Y swm i gael ei benderfynu wrth bennu'r archeb yn flynyddol.
**10.2 Cyngor Llanllechid - Tai Fforddiadwy -** penderfynwyd fod y Cyngor yn credu fod ymateb Cyngor Gwynedd i'w llythyr yn un teg iawn, a bod diffyg mawr o dai cymdeithasol/rhent yn yr ardal. Nid oes ddim un tŷ rhent ar gael yn Nyffryn Ogwen ar hyn o bryd, ac mae llawer o dai ar gael i'w prynu. Mi fydd y Cyngor yn ymateb i'r galw am safleoedd addas i'r Cynllun Datblygu lleol o fewn ein plwyf ni.
**10.3 Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025-26 –** Ymateb fel unigolion erbyn 29 Tachwedd 2024.

**10.4 Cynlluniau Arwyddo Drafft -** yr aelodau i edrych ar y cynllun ac i ddanfon unrhyw sylwadau i'r Clerc cyn gynted â phosib.
**10.5 Cynrychiolaeth Claire Hughes AS - Gwasanaeth Sul y Cofio -** y Cyngor i ddanfon yr e-bost ymlaen y Parch. Sara Roberts.

**11. Penderfyniadau a Cheisiadau Cynllunio**
<u>**Penderfyniadau**</u>

| | |
|---|---|
| **C23/0207/13/CR**<br>Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C24/0138/13/LL**<br>1 Yr Ardd Fawr, Ffordd Gerlan, Gerlan | Codi annedd deuluol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0390/13/AC**<br>Spar Stores Stryd Fawr, Bethesda | Diwygiad i amod 2 o ganiatâd cynllunio C23/0547/13/LL ar gyfer creu man manwerthu a chanolfan dreftadaeth i ailddefnyddio adeilad SPAR a chodi estyniad tri llawr, er galluogi newidiadau i'r cynlluniau a gymeradwywyd i gynnwys gosod pwmp gwres ffynhonnell aer a phaneli ffotofoltaig, ac ychwanegu mwy o reiliau diogelwch.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0452/21/CC**<br>Caravan Park & Country Club, Ogwen Bank, | Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0540/13/TC** | Wenmar, Bron Arfon Ffordd Llwyn Bleddyn, Rachub<br>Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer parhau i ddefnyddio tir ar gyfer storio deunyddiau adeiladu peiriannau a cherbydau; paratoi elfennau adeiledig ac ardal gweithdy<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0741/13/DA** | Tŷ Nain, 28 Erw Lâs, Bethesda<br>Diwygiad ansylweddol i ganiatâd cynllunio C22/0454/13/DT drwy leihau maint yr estyniad.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau. |
| **C24/0731/13/LL** | Blodau Hyfryd, 7 Rhes Victoria, Bethesda<br>Newid defnydd siop bresennol yn fflat un ystafell wely.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**Ceisiadau**

| | |
|---|---|
| **C24/0809/13/DT** | 36 Glanogwen, Bethesda<br>Dymchwel estyniad unllawr ochr presennol, a chodi estyniad unllawr ochr newydd.<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |
| **C24/0846/13/DT** | Ivy Cottage, 13 Penygraig, Bethesda<br>Cais i gadw Pwmp Gwres Aer yng nghefn yr eiddo<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |
| **C24/0827/13/LL** | Stryd Goronwy, Bethesda<br>Creu ffordd fynediad i ganiatáu parcio oddi ar y ffordd i 11 o geir.<br>**Penderfyniad:** Penderfynwyd bydd yr aelodau yn ymweld â'r safle yn amser ei hunain ac i ddanfon sylwadau cyn gynted â phosib. |
| **C24/0817/13/LL** | Ysgol Gynradd Llanllechid<br>Estyniad un llawr 2 ystafell ddosbarth a gwaith allanol cysylltiedig i Ysgol Llanllechid / A single storey 2 classroom extension and associated external works to the existing Ysgol Llanllechid<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**12. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Japanese Knotweed Removal Wales | Trin Llysiau'r Dial yn Llys Dafydd | £150.00 |
| Sgaffaldau Mabon | Sgaffald ar gyfer glanhau'r gofeb | £1,200.00 |
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £206.26 |
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £207.71 |
| Scottish Power | Trydan Gorffwysfan | £193.37 |
| John Wyn Jones | Cyflog Hydref | £396.53 |
| CThEM | TWE Hydref | £99.20 |
| Partneriaeth Ogwen | Cyfraniad at y Llyfrgell Gymunedol | £2,999.10 |

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio a Datblygu Cymunedol | £27,540.54 |
| Partneriaeth Ogwen | Swyddog Cynnal a Dyfrio Basgedi Crog | £7,615.39 |
| Cerrig Stone & Granite Ltd | Glanhau'r Gofeb | £4320.00 |

**13. Crynodeb Llais Ogwan**

Penderfynwyd cynnwys yr isod:

- Dŵr yn llifo – Lon Newydd
- Ffordd Hen Barc
- Cyflwyniad gan Brif Arolygydd Heddlu Gogledd Gwynedd
- Glanhau'r gofeb